



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd

Adroddiad Cynnydd a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac Arweinydd Plaid Cymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Mai 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Mai 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cefndir

Cynnydd

Ymgysylltu

Adrodd

Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda dau amcan eang:

- Ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni.
- Ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys:

- Cyd-gadeirydd: Laura McAllister
- Cyd-gadeirydd: Rowan Williams
- Anwen Elias
- Miguela Gonzalez
- Michael Marmot
- Lauren McEvatt
- Albert Owen
- Philip Rycroft

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Shavanah Taj
- Kirsty Williams
- Leanne Wood

Mae Panel Arbenigol yn cael ei benodi i roi cymorth i'r Comisiwn ar amrywiaeth o arbenigeddau, gan gynnwys, llywodraethu, y gyfraith, cyfansoddiad, busnes, economeg a chyllid, i'w helpu i wneud argymhellion gwybodus.

Cynnydd

Cyfarfu'r Comisiwn am y tro cyntaf ar 25 Tachwedd 2021, a mae bellach wedi cyfarfod i glywed tystiolaeth bum gwaith.

Hyd yma, mae'r Comisiwn wedi clywed tystiolaeth gan y bobl a'r sefydliadau canlynol:

- Yr Arglwydd Dunlop
- Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Y Gwir Anrhydeddus Yr Athro Carwyn Jones
- Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Paul Murphy
- Neil O'Brien AS, Gweinidog Lefelu i Fyny, yr Undeb a'r Cyfansoddiad, Llywodraeth y DU
- Angus Robertson, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant, Llywodraeth yr Alban
- CBI Cymru
- Siambrau Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiwn Dyfodol Datganoli a Gwaith, TUC Cymru
- Comisiwn Annibyniaeth, Plaid Cymru
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cymru
- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r Comisiwn yn cynnal gweithdai technegol i ystyried rhai materion yn fanylach. Hyd yma, mae'r rhain wedi ymdrin a'r setliad datganoli presennol; datganoli cyllidol; ac ymgysylltu. Bydd gweithdai yn y dyfodol yn cynnwys archwiliad pellach o ddatganoli cyllidol.

Ymgysylltu

Ar 31 Mawrth, lansiodd y Comisiwn alwad am dystiolaeth - **Dweud eich dweud: dyfodol cyfansoddiadol Cymru**

Hyd yma (ar 19 Ebrill 2022), mae'r Comisiwn wedi derbyn 607 o ymatebion wedi'u cwblhau. Bydd yr ymatebion a ddaw i law yn llywio cynnwys adroddiad interim y Comisiwn. Cafodd y Cyd-gadeiryddion eu cyfweld ar gyfer The Times, BBC Politics Wales, Sunday Supplement Vaughan Roderick, a Wales Cast, gyda'r Comisiwn yn ymddangos ar draws deg stori ar y diwrnod. Cynyddodd nifer y dilynwyr ar sianel Twitter y Comisiwn 38% (o 346 o ddilynwyr i 477) gyda sgôr o 98% o fynegiant cadarnhaol. Trydariat mwyaf poblogaidd y Comisiwn oedd graffig yn nodi opsiynau i'w hystyried ar gyfer y dyfodol (1,422 o ymrwymiadau a thros 33,000 o argraffiadau). Cafodd tudalen we'r Comisiwn 541 o ymweliadau.

Mae'r Comisiwn yn datblygu strategaeth ymgysylltu ehangach gyda'r bwriad o ymgysylltu â thrawstoriad eang o gymdeithas yng Nghymru.

Adrodd

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad interim erbyn diwedd 2022, a'i adroddiad llawn, gan gynnwys argymhellion, erbyn diwedd 2023.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).